## ATODLEN 5

Rheoliad 9

### Awdurdodiad i farchnata tatws hadyd at ddibenion profi a threialu

**1.** Pan geir cais am awdurdodiad a wnaed yn unol â rheoliad 9, rhaid i swyddog awdurdodedig—

(a) dyrannu i'r person sy'n gwneud y cais rif sydd i'w alw'n "rhif adnabod y cynhyrchydd" (pan na fo un eisoes yn bod ar gyfer person hwnnw);

(b) cynnal archwiliad swyddogol o'r tatws hadyd er mwyn penderfynu a yw gofynion yr Atodlen hon a Rhan 4 o Atodlen 3 wedi eu bodloni; ac

(c) yn ddarostyngedig i baragraff 3 a rheoliad 9, dyroddi awdurdodiad i farchnata tatws hadyd at ddibenion profi a threialu.

**2.** Rhaid i awdurdodiad ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y ceisydd;

(b) rhif adnabod y cynhyrchydd;

(c) swm y tatws hadyd y rhoddir awdurdod i'w marchnata;

(d) y cyfnod yr awdurdodir marchnata;

(e) dyddiad dyroddi'r awdurdodiad; ac

(f) enw arfaethedig amrywogaeth y tatws hadyd.

**3.** Ni chaiff swyddog awdurdodedig ddyroddi awdurdodiad onid yw wedi ei fodloni—

(a) bod y tatws hadyd o amrywogaeth y gwnaed cais ar ei chyfer o dan reoliad 4(1)(a) o'r Rheoliadau Rhestrau Cenedlaethol ar gyfer derbyn yr amrywogaeth o dan sylw ar Restr Genedlaethol ac nad yw'r cais wedi ei dynnu'n ôl na'i benderfynu'n derfynol;

(b) nad yw'r tir y mae'r tatws hadyd yn tyfu arno neu lle tyfwyd hwy yn dir a ddynodwyd o dan Atodlen 14 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**1**) fel tir a halogwyd gan Glefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc) neu o fewn parth diogelwch a ddynodwyd o dan y Gorchymyn hwnnw;

(c) bod y tir y mae'r tatws hadyd yn tyfu arno neu lle tyfwyd hwy yn dir nad yw wedi ei halogi gan rywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws;

(d) bod y tatws hadyd wedi eu cymryd o gnwd o datws hadyd sy'n rhydd rhag rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws, *Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc, *Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp *Sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) a *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al);

(e) nad yw nifer y planhigion sy'n tyfu yr effeithir arnynt gan bydredd du'r coesyn yn fwy na 4%;

(f) bod y cnwd olynol nesaf a gynhyrchir o'r tatws hadyd, ym marn y swyddog awdurdodedig, yn debygol o gynnwys—

(i) dim mwy na 0.5% yn ôl rhif o blanhigion sy'n tyfu nad ydynt yn epilio yn driw i'w hamrywogaeth a dim mwy na 0.2% yn ôl rhif o blanhigion sy'n tyfu sydd o amrywogaeth wahanol; a

(ii) dim mwy na 10% yn ôl rhif o blanhigion sy'n tyfu sy'n dangos symptomau, ac eithrio symptomau ysgafn, o glefydau firws difrifol sy'n gyffredin yn Ewrop (mae heintiau amryliw ysgafn sy'n peri bod deilen yn arddangos gwahanol liwiau ond nad yw'n peri anffurfio'r ddeilen i gael eu hanwybyddu); ac

(**1**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1795 (Cy. 171); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(g) bod canfyddiad wedi ei wneud nad yw'r tatws hadyd wedi eu heffeithio gan unrhyw un o'r goddefiannau ar gyfer clefydau neu blâu, difrod na diffygion a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 3.